COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd dros y rhwydwaith am 9.30 ar 9 Chwefror 2016

Yn bresennol:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)
Gareth Eyres
Yr Athro Jacqui Hare
Gareth Pierce

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Yr Athro Iwan Davies
Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod dros y rhwydwaith. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nodwyd buddiannau fel a ganlyn mewn perthynas â materion ar yr agenda: Gareth Pierce – y Coleg mewn trafodaethau â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ynghylch y Dystysgrif Sgiliau Iaith.		
3. Diweddariad cyffredinol	3.1 Cafwyd adroddiad llafar ar y trafodaethau diweddaraf ynghylch sicrhau cyllideb y Coleg yn sgil y toriadau yng nghyllideb addysg uwch Llywodraeth Cymru gan y Prif		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Weithredwr a'r Cofrestrydd. 3.2 Nodwyd y bydd yr ansicrwydd yn debygol o barhau ar ôl Etholiadau'r Cynulliad fis Mai. 3.3 Cafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd lledaenu newyddion da ynghylch gweithgareddau'r Coleg, pwysigrwydd anghenion deddfwriaeth y defnyddiwr a phrofiad y myfyriwr.		
4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	4.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2015, fel cofnod cywir.		
5. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 1 2015/16 (PA/16/01/05)	5.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 1 2015/16 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod yr incwm a'r gwariant yn gyson â'r gyllideb a osodwyd dros ddwy flynedd tan 2016/17. 5.2 Derbyniwyd y cyfrifon.		
6. Cyllideb ddrafft y Coleg 2016/17 (PA/16/01/06)	6.1 Cyflwynwyd Cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2016/17 gan y Cofrestrydd. 6.2 Cafwyd trafodaeth ar y gyllideb yn yr hinsawdd sydd ohoni a chytunwyd i gyflwyno'r gyllideb ddrafft i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 3 Mawrth 2016, gyda gwybodaeth gyd-destunol.	Cyflwyno cyllideb ddrafft 2016/17 i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	3 Mawrth 2016
7. Y Gofrestr Risg (PA/16/01/07)	7.1 Cafwyd diweddariad ar y Gofrestr Risg gan y Cofrestrydd. 7.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i newid risg 11/6 i 'canolig'. 7.3 Nodwyd y trafodwyd risg 11/07, Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), yn y Bwrdd Academaidd ar 3 Chwefror 2016 a cheir trafodaeth bellach yng nghyfarfod 20 Gorffennaf 2016. 7.4 Nodwyd bod yr ansicrwydd i gyllideb y Coleg wedi 2016/17 (risg 14/01) yn parhau ac y byddai'r Bwrdd	Addasiadau a sicrhau cyfieithiad i'r BC	Erbyn 3 Mawrth 2016

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Cyfarwyddwyr yn trafod y mater ar 3 Mawrth 2016. 7.5 Awgrymwyd y dylid ychwanegu 'prifysgolion' i'r golofn rheoli yn risg 15/01. 7.6 Cafwyd trafodaeth ar bryderon y sector ynghylch sicrhau ymrwymiad i'r Gymraeg yn y TEF (risg 15/02). Nodwyd bod y Coleg wedi ymateb i ymgynghoriad BIS ar y TEF.		
8. Materion yn Codi	8.1 Eitem 12.3: Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Gyfathrebu. Nodwyd bod argymhellion yr archwilwyr mewnol ar gyfathrebu yn cael eu gweithredu. Mae'r Coleg yn gosod trefn mewn lle i gasglu gwybodaeth am fyfyrwyr a fyddai'n caniatáu eu tracio wedi iddynt adael y brifysgol. 8.2 Eitem 13: Rhaglen waith yr Archwilwyr Mewnol. Nodwyd bod yr Archwilwyr Mewnol wedi dechrau darn o waith ar y canghennau a chyflwynir diweddariad i'r pwyllgor fis Mai 2016. Maent yn gweithio ar y prosesau ariannol a chaffael yn ogystal. 8.3 Eitem 15: Pensiwn USS. Adroddwyd bod ymgynghorydd pensiwn wedi gweld y staff i drafod eu sefyllfaoedd pensiwn unigol. Eglurwyd bod newidiadau pensiwn USS a newidiadau i yswiriant gwladol yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016.		
9. UFA	9.1 Cytunwyd i ail-gyflwyno'r rhestr ffioedd, a gynigir gan y Coleg ar gyfer darparu cydnabyddiaeth i aelodau allanol o bwyllgorau'r Coleg, aelodau allanol o baneli dyfarnu a phaneli adolygu, darparwyr rhaglen hyfforddiant datblygu staff a rhai swyddogaethau penodol, yng nghyfarfod 17 Mai 2016. Cymeradwywyd y rhestr yn wreiddiol yng nghyfarfod 26 Tachwedd 2013.	NB i gylchredeg y rhestr ffioedd ar ôl y cyfarfod	Chwefror 2016
10. Dyddiad a lleoliad y	10.1 Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf dros y rhwydwaith		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
cyfarfod nesaf	fideo • 17 Mai 2016, 2.00-5.00 10.2 Diolchwyd i'r cyfieithydd ar y pryd am ei waith.		